Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl312

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Portffolio Ystadau'r Heddlu**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Yn dilyn adolygiad strategol o bortffolio ystadau'r Heddlu, penderfynwyd nad oes angen gweithredol ar gyfer yr eiddo canlynol, yn unol â chyfarwyddyd y Prif Gwnstabl, ac y byddant yn cael eu gwaredu:

- Hen Orsaf a Thŷ Heddlu Cydweli, Banc Pendre, Cydweli, Sir Gaerfyrddin, SA17 4TA
- Hen Orsaf Heddlu, Dalfa a Garejys Llanelli, Hen Ffordd y Castell, Llanelli, SA15 3AD
- Gorsaf Heddlu Saundersfoot, Teras Wogan, Saundersfoot, SA69 9HA
- Sanclêr, Y Gât, Heol y Pentre, Caerfyrddin, SA33 4AA (wedi'i rhentu ar brydles gan Gyngor Sir Gaerfyrddin)
- Gorsaf Heddlu Aberdaugleddau, Charles Street, SA73 2HP

Mae'r penderfyniad hwn yn rhan o raglen newid ehangach ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys, lle mae'r ymagwedd tuag at blismona gweithredol yn canolbwyntio ar wneud y defnydd gorau o dechnoleg ac offer a fydd yn gwella plismona a'r gwasanaethau i'n cymunedau. Mae'r Heddlu a'r Comisiynydd wedi ymrwymo i gynnal yr un lefel o wasanaeth i'w gymunedau lleol, ac ni fydd preswylwyr a busnesau yn yr ardal yn gweld unrhyw effaith andwyol o ganlyniad i benderfyniadau a wneir.

**Argymhelliad:**
Argymhellir bod CHTh yn cymeradwyo marchnata a gwerthiant a/neu warediad yr eiddo a restrir uchod.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:**  **Dyddiad: 26/07/23**